# Y gymdeithas dda

Wrth i'r Artemis II hyrddio'i hun tuag at y Lleuad yn ddiweddar, holwyd y gofodwyr am y rhaniadau dyfnion presennol ymysg pobloedd y Ddaear. Pa neges oedd ganddynt ar gyfer y ddynoliaeth? Atebodd Victor Glover drwy bwyntio a'i fys at ffenest y llong ofod yn cynnig golygfa aruthrol, unigryw-amryliw o'n planed, a dweud: “'Da chi'n edrych yn anhygoel. 'Da chi'n edrych yn brydferth. O 'fyny fa'ma, 'da chi hefyd yn edrych fel un bod. 'Da ni 'gyd yn un bobl.” Mae fel petawn yn anghofio'r gwirionedd sylfaenol hwn yn barhaus, â gwlad yn dewis ymosod ar ei chymydog, neu lywodraeth gwlad yn dewis gormesu ei phoblogaeth ei hun.

Fe’m hatgoffwyd am lyfr gan yr epidemiolegwyr Richard Wilkinson a Kate Pickett yn dwyn y teitl “The Spirit Level”. Darllenais y llyfr gyntaf dros ddegawd yn ôl, a gwir fuddiol oedd mynd drwyddo eto dros wyliau'r Pasg eleni, yng ngoleuni geiriau'r gofodwr. Crynhoi a chyflwyno canlyniadau blynyddoedd o ymchwil cymdeithasol gan wyddonwyr arbenigol mae’r llyfr. Nid cynnig barn cofiwch, ond tystiolaeth ar ffurf data caled, fel pob gwyddoniaeth dda. Yn syml, dengys y data bod problemau cymdeithasol a phroblemau iechyd yn waeth mewn cymdeithasau â bwlch mawr rhwng y cyfoethog a’r tlawd. Mae iechyd corfforol a meddyliol, lefelau trais a throsedd, defnydd o gyffuriau, beichiogrwydd ymhlith merched ifainc a symudedd cymdeithasol yn waeth mewn cymdeithasau anghyfartal.

Unwaith bydd gwlad yn cyrraedd lefel benodol o gyfoeth, fel yng ngwledydd “Y Gorllewin”, nid yw mwy o arian yn ei boced yn gwneud dyn yn hapusach nac yn iachach. Yn hytrach, yr hyn sy’n bwysig yw sut y rhennir yr arian yn y gymdeithas. Fel canlyniad, mae gwledydd mwy cyfartal a chydraddol (fel Norwy a Siapan) yn hapusach ac iachach na gwledydd anghyfartal. O’r gwledydd datblygedig, yr Unol Daleithiau yw’r wlad mwyaf anghydraddol yn ôl sawl mesur. Yn anffodus, y Deyrnas Gyfunol yw un o'r gwladwriaethau sydd agosaf o ran anghydraddoldeb i’r Unol Daleithiau. Yng ngwledydd Prydain, er enghraifft, mae cyfoeth y 10% cyfoethocaf o'r boblogaeth rhyw BUM GWAITH cyfanswm cyfoeth y 50% tlotaf. Nid oes syndod felly, o’i chymharu â gwledydd y Gorllewin yn gyffredinol, nad yw’r Deyrnas Gyfunol yn wladwriaeth hapus nac iach. Nid damwain a hap yw’r sefyllfa hon yn ôl Wilkinson a Pickett, ond canlyniad anochel i bolisïau llywodraethau Prydeinig (o bod lliw) dros ddegawdau o wrthod mynd i’r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol systemig.

Niweidia anghydraddoldeb pawb mewn cymdeithas, nid yn unig y tlawd. Mae hyd yn oed y cyfoethog mewn cymdeithas anghyfartal yn tueddu bod â lefelau uwch o straen a gor-bryder oherwydd y pwysau i gynnal statws. Mewn cymdeithasau anghyfartal, poena’r dyn cyfoethog mwy am sut mae eraill yn ei weld; tuedda pobl ymddiried llai yn ei gilydd, gan wanhau cymunedau a pheri dadfeiliad cymdeithasol. Arweinia’r pwysau i "gadw i fyny â'r Jonsis" at ddyledion ariannol personol, gor-waith a thebyg.

Neges di-flewyn-ar-dafod y “Spirit Level” yw y dylai llywodraeth gwlad sydd â'i bryd ar greu cymdeithas iach a hapus - y gymdeithas dda - flaenoriaethu lleihau'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd, yn hytrach na cheisio twf economaidd yn unig. Dylem fagu hyder drwy gofio, er na fedrwn ddylanwadu'n uniongyrchol ar weithredoedd Putin a Trump a Xi Jinping, y medrwn fynnu bod tegwch a chydraddoldeb yn ennill eu plwyf yn ein milltir sgwâr ni ein hunain. "'Da ni 'gyd yn un bobl."